**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 21 Mawrth 2019 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd G Hopkins |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd J Rosser |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd C Leyshon |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mrs. J Allen, Head Of Attendance And Wellbeing Service
Ms L Howells, Ysgolion yr 21ain Ganrif
Mr T Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau TGCh a Digidol
Ms Z Lancelott, Pennaeth Materion Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned
Mr C Nelson, Rheolwr Trafnidiaeth
Ms A Richards, Pennaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd S Belzak
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd G Davies
Y Cynghorydd M Diamond
Y Cynghorydd H Fychan
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd L Hooper
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd S Pickering
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd L Walker

## 133 DATGAN BUDDIANT

Cafwyd y datganiadau o fuddiannau canlynol ynglŷn â materion ar yr agenda:

**Eitem 2 - Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif:**

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater -

- “Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Heol y Celyn ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor.”
- “Mae fy wyrion yn mynd i ysgol sydd wedi'i nodi yn y cynigion“

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings ddatganiad o fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ynglŷn â'r mater a gadawodd y cyfarfod pan oedd yr Aelodau'n trafod yr eitem ac yn cynnal pleidlais "Rydw i'n cael fy nghyflogi gan Coleg y Cymoedd"

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Rosser ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Cefais fy mhenodi i Gorff Llywodraethu Coleg Morgannwg (Coleg y Cymoedd erbyn hyn) am gyfnod o 4 blynedd yn ail Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar hugain y Cyngor (17 Mai 2017). Serch hynny, nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor".

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Pickering ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Belzak ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu YGG Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Cilfynydd ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Hooper ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gwauncelyn ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Maes-y-coed ac Ysgol Gynradd Coed-y-lan ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd y

Ddraenen Wen ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol H Fychan ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Evan James ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Walker ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Mae fy wyrion yn mynd i un o'r ysgolion sydd wedi'u nodi yn y cynigion".

Mr C Bradshaw - “Cefais fy mhenodi i Gorff Llywodraethu Coleg Morgannwg (Coleg y Cymoedd erbyn hyn) am gyfnod o 4 blynedd yn ail Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar hugain y Cyngor (17 Mai 2017).”

**Eitem 3 - Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig y Gwasanaethau Addysg A Chynhwysiant**

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Rosser ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Alaw ac Ysgol Gynradd Trealaw ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Leyshon ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Trehopcyn ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Darren-las ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Parc Aberdâr ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Cwm Clydach ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Caegarw ac Ysgol Gyfun Aberpennar ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Davies ddatganiad o fuddiant

personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

## 134 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION I AILDREFNU YSGOLION CYNRADD, YSGOLION UWCHRADD A'R DDARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH YN ARDAL EHANGACH PONTYPRIDD

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wybod i'r Aelodau am ganlyniadau'r ymgynghoriad diweddar ynglŷn â'r cynigion i aildrefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal ehangach Pontypridd, a hynny yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 3 Hydref 2018.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at atodiad yr adroddiad, sy'n nodi gwybodaeth fanwl am y broses ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r rhanddeiliaid perthnasol. Mae hyn yn cynnwys y rhesymeg y tu ôl i'r cynigion, a rhannodd y Cyfarwyddwr fanylion am hyn yn y cyfarfod er budd yr Aelodau. Yn ogystal â hynny, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod yr holl fanylion am yr ymgynghoriad wedi bod ar gael i Aelodau'r Cabinet eu gweld ers 1 Mawrth. Nod hyn oedd sicrhau bod gan yr Aelodau ddigon o amser i adolygu'r ymatebion manwl a ddaeth i law.

Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau fod yr holl gynigion wedi cael eu hailystyried ynghyd ag effaith y cynigion ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned a'r trefniadau cludiant, yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, nododd y Cyfarwyddwr y dylai'r Cabinet fwrw ymlaen â'r holl gynigion gwreiddiol ac eithrio'r cynnig i newid dalgylch Ysgol Gwauncelyn. Argymhellodd y Cyfarwyddwr y dylai'r dalgylch ar gyfer Ysgol Gynradd Gwauncelyn aros o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn hytrach na throsglwyddo i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen. Dywedodd hi fod safle tir llwyd mawr yn Llanilid, Llanharan, wedi'i brynu gan ddau ddatblygwr mawr ers dechrau'r ymgynghoriad ym mis Hydref 2018, ac mae'r Cyngor wedi dechrau cynllunio ar y safle gyda'r cynllunwyr er mwyn darparu cyngor ac arweiniad cyn cynllunio. Er mwyn datblygu'r safle, byddai'n rhaid agor ysgol uwchradd newydd. Byddai hyn yn cael effaith ar nifer o ysgolion eraill wrth i'r datblygiad dyfu. Yn ogystal â hynny, byddai angen adolygu Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn 2021, neu lunio cynllun cyfatebol.

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, cafodd yr Aelodau wybod bod cynnig arfaethedig a fyddai'n gweld £37.4 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn adeiladu ysgolion newydd neu adnewyddu/ailfodelu ysgolion sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau bod modd i ddisgyblion RhCT fanteisio ar amgylcheddau dysgu'r 21ain Ganrif sydd o ansawdd da, yn ymarferol ac yn gynaliadwy.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes i'r Cyfarwyddwr, ei staff a'r garfan ymgynghori am eu gwaith mewn perthynas â'r ymgynghoriad. Diolchodd hi i bawb a wnaeth ymateb i'r ymgyngoriad am eu hadborth, yn ogystal â'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc am eu gwaith. Diolchodd hefyd am y cyfarfodydd ychwanegol a gafodd eu cynnal er mwyn helpu i gynnal trafodaethau ynglŷn â'r cynigion. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod hi'n siomedig nodi bod 47% o'r ymatebion wedi'u darparu ar dempled a oedd wedi'i addasu, nad oedd yn darparu'r holl fanylion angenrheidiol. Nododd hi fod 109 o'r ffurflenni yma yn rhai a oedd wedi'u dyblygu ond gyda llofnodion

gwahanol, ond roedden nhw dal wedi cael eu hystyried yn rhan o'r broses.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Cyfarwyddwr a'i charfan am roi cipolwg cynnar o ganlyniadau'r ymgynghoriad ar 1 Mawrth. Rhoddodd hyn ragor o amser i'r Aelodau adolygu'r cynigion a myfyrio ar yr ymatebion.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion y Gymraeg sylwadau am y cynigion, gan nodi y byddai'r buddsoddiad arfaethedig yn gyfle amlwg i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â helpu i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Croesawodd yr Arweinydd y Cynghorwyr canlynol i annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cynigion:
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, L Hooper, J Brencher, H Fychan, M Powell, S Pickering a L Walker.

Yn dilyn sylwadau'r Cynghorwyr, croesawodd yr Arweinydd yr aelodau canlynol o'r cyhoedd i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r eitem:
Mrs E Haf, Ms L Chinnock-Davies, Ms L Williams, Ms C King, Mr E Mead, Ms J Warner, Ms K Bury, Ms S Churchill a Mr J Beynon.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant i'r sylwadau gan y Cyngorwyr ac aelodau'r cyhoedd, gan nodi y byddai'r buddsoddiad arfaethedig o £37.4 miliwn yn gwella ansawdd yr addysg a ddarperir yn y Fwrdeistref Sirol er budd dyfodol pobl ifainc. Ychwanegodd fod y rhesymeg y tu ôl i'r adroddiad, sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, yn gymhellol wrth ystyried y data sydd ar gael. Gwnaeth y Cyfarwyddwr sylwadau am faterion cynaliadwyedd, gan nodi y byddai'r sefyllfa gyfredol gyda chyllidebau mewn diffyg ariannol yn parhau pe byddai'r Cyngor ddim yn ystyried y newidiadau. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr hefyd at y flaenoriaeth o fuddsoddi yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol, a nododd fod problemau o ran cludiant wedi'u nodi hefyd. I gloi, nododd y Cyfarwyddwr fod lles dysgwyr yn brif flaenoriaeth, a bod diwallu anghenion y dysgwyr yn hanfodol. Yr unig ffordd o wneud hyn yw sicrhau buddsoddiadau o ansawdd uchel.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r holl Aelodau a'r cyhoedd am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r cyfarfod, a nododd nad oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw wrthwynebiadau gan rieni disgyblion Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am ragor o fanylion gan y swyddog priffyrdd mewn perthynas â'r siwrnai arfaethedig i ddisgyblion YGG Pont Siôn Norton. Darparodd y swyddog fanylion am hyn.

Yn ogystal â hynny, gofynnodd Aelod o’r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol am y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 6ed dosbarth a'r disgyblion hynny a allai benderfynu mynychu YGG Abercynon yn hytrach na'r ysgol newydd yn Heol y Celyn. Ychwanegodd y Swyddog Priffyrdd y byddai'r ddarpariaeth 6ed dosbarth ar gael i'r rheiny sy'n byw dros ddwy filltir i ffwrdd, ac, o ran ysgolion cynradd, y byddai cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol agosaf neu'r ysgol agosaf yn y dalgylch ar sail radiws o 1.5 milltir. Ychwanegodd y byddai cludiant ar gael i'r naill ysgol a'r llall ar gyfer rhieni disgyblion Ysgol Pont Siôn Norton sy'n dewis anfon eu plant i YGG Abercynon.

Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol am y prosesau sydd ar waith i sicrhau diogelwch ar y ffyrdd ac unrhyw ffactorau

lliniarol a gaiff eu hystyried i fynd i'r afael â thraffig ychwanegol. Dywedodd y Swyddog Priffyrdd y byddai'r prosesau arferol yn cael eu dilyn, gan gynnwys asesiad trafnidiaeth ac asesiad llwybrau diogel. Byddai'r rhain yn cael eu cynnal cyn agor unrhyw ysgol.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant p'un a oes lleoedd gwag yn YGG Abercynon ac YGG Evan James ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion y Gymraeg at benderfyniad y Cyngor o ran newidiadau a buddsoddiadau yn Ysgol Gyfun Llanhari ac Ysgol Gyfun Garth Olwg, a phryderon y cyhoedd pan ddigwyddodd hynny, gan nodi nad yw newid yn hawdd. Serch hynny, cyfeiriodd at y buddiannau sy'n gysylltiedig â hyn bellach ac ategodd fod angen buddsoddi mewn cyfleusterau newydd.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai ei fod e'n credu bod y cynigion yn yr adroddiad yn symud addysg yn ei flaen i'r cyfeiriad cywir, a chyfeiriodd at lwyddiant yr ysgolion 3-16 eraill yn y Fwrdeistref Sirol. Ychwanegodd ei bod hi'n bwysig i'r Cyngor sicrhau bod y cyfleusterau ar gyfer pobl ifainc yn addas at y diben, gan ddarparu cyfleusterau ac amgylcheddau dysgu gwell. Nododd ei fod e'n gwerthfawrogi pryderon rhai rhieni mewn perthynas â'r newid, ond dywedodd ei fod e'n credu bod y cynigion yn symud addysg i'r cyfeiriad cywir.

Eglurodd yr Aelod o’r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol beth yw sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas ag atebolrwydd Coleg y Cymoedd. Ag yntau'n aelod o'r Bwrdd, dywedodd y Prif Weithredwr bod y mater yma'n cael ei ystyried yn ddifrifol iawn, gan nodi bod Estyn yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'i arolwg diweddar o'r Coleg. Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr agwedd yma hefyd, gan nodi nad oedd modd cymharu cyflawniad y coleg â chyflawniad y ddarpariaeth 6ed dosbarth gan fod y ddau ddull o fesur cyflawniad yn wahanol.

Yn ogystal â hynny, manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i egluro strategaeth y Cyngor o ran y ddarpariaeth Gymraeg, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr bod cryn sylw wedi'i roi ar yr angen i wella'r ddarpariaeth ledled y Fwrdeistref Sirol, a bod ymrwymiad sylweddol wedi bod i fuddsoddi £60 miliwn. Ychwanegodd fod y Cyngor yn datblygu'n rhagweithiol.

Holodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc am y newid a'r cymorth sydd ar gael i bawb sy'n ymwneud â hynny. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg at y cysylltiadau cryfach ar lefel clwstwr, sydd wedi helpu i ddod ag athrawon at ei gilydd a gwella cysondeb o ran polisi ac ymarfer

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg am yr holl sylwadau ac am eglurhâd manwl gan y swyddogion ar y pynciau niferus a gafodd eu codi yn y cyfarfod. O wrando ar y sylwadau, dywedodd ei bod hi'n amlwg bod pawb yn awyddus i sicrhau'r un canlyniad ar gyfer dysgwyr ifainc y Fwrdeistref Sirol, sef darparu addysg o'r radd flaenaf. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod buddsoddi yn y ddarpariaeth a'r adnoddau yn hanfodol er mwyn darparu ansawdd o'r fath. Dywedodd nad oes modd i bethau aros fel maen nhw a chyfeiriodd at y lleoedd dros ben mewn darpariaethau 6ed dosbarth, yn ogystal â'r cyllidebau mewn diffyg y mae ysgolion yn eu cario ymlaen, sydd ddim yn gynaliadwy. Cyfeiriodd at y ddarpariaeth 3-16 oed a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â chael gwared ar y cyfnod pontio a chyfeiriodd at ddarpariaethau 3-16 oed eraill yn y Fwrdeistref Sirol sydd wedi gweld gwelliannau sylweddol.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y buddsoddiad arfaethedig mewn addysg Gymraeg a darparu cyfleusterau newydd sbon.

Yn ogystal â hynny, cytunodd yr Aelod o'r Cabinet â'r cynnig i beidio â bwrw ymlaen â'r newidiadau i ddalgylch Gwauncelyn am y rhesymau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

O ystyried sylwadau pawb a'r adroddiad trylwyr a manwl gerbron yr Aelodau, argymhellodd yr Aelod o'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Ymgynghori, sy'n cynnwys manylion yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori a nodiadau o'r gwahanol gyfarfodydd a gafodd eu cynnal.

2. Ystyried cynnwys adroddiad yr Ymgynghoriad a nodi ei fod wedi'i gyhoeddi a'i rannu â'r rhanddeiliaid perthnasol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.

3. Yn dilyn deilliannau'r ymgynghoriad, gan gynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, yr Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o Effaith ar y Gymraeg, bod y Cabinet yn symud y cynigion ymlaen i gam nesa'r broses adolygu drwy:

i. Cytuno i gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad: AC
ii. Cyhoeddi'r Hysbysiadau Statudol priodol ar ôl cyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad.

4. Addasu'r cynigion mewn perthynas â newidiadau i ddalgylchoedd fel na fydd dalgylch Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn newid.

**Nodwch:**

- Ar ddiwedd yr eitem, holodd y Cynghorydd M Powell am y broses galw i mewn, a chadarnhaodd y Swyddog Cyfreithiol bod modd cyfeirio'r holl argymhellion at y broses galw i mewn.

- Gadawodd y Cynghorwyr canlynol y cyfarfod yn dilyn trafod yr eitem yma: H Fychan, M Diamond, L Walker, S Belzak, M Powell, S Pickering.

- Cafodd nifer o ddatganiadau eu gwneud yn y cyfarfod, ac mae cofnod 133 yn cyfeirio at hyn.

**135 RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG Y GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT 2019/2020**

Rhoddodd Pennaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif fanylion i Aelodau'r Cabinet ynghylch gweithiau cyfalaf i'w cymeradwyo ar gyfer 2019/20, yn rhan o Raglen Gyfalaf dair blynedd y Cyngor.

Atgoffodd y Pennaeth Gwasanaeth Aelodau'r Cabinet fod swm o £6.888 miliwn wedi'i ddyrannu i'r rhaglen gyfalaf arfaethedig (mân weithiau) ar gyfer 2019/20, fel y cafodd ei gytuno gan y Cyngor ar 6 Mawrth 2019. Aeth yn ei blaen gan roi

gwybod y byddai parhau gyda'r Rhaglen Gyfalaf dreigl tair blynedd a chadw lefel y cyllid yn parhau i wneud gwelliannau sylweddol i ansawdd adeiladau ysgolion y Cyngor ac mae wedi bod yn rhan hollbwysig o raglen foderneiddio ysgolion y Cyngor sydd yn ddiamau wedi cyfrannu at safonau gwell. Cafodd yr Aelodau wybod bod dyraniad 2019/20 yn cynnwys £1.500 miliwn o adnoddau ychwanegol i'w dyrannu i ysgolion a chafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 10 yr adroddiad lle mae manylion pellach wedi'u hamlinellu.

Cyfeiriodd yr aelodau at adran 5 yr adroddiad lle mae dyraniadau arfaethedig cronfeydd y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2019/20 yn cael eu hamlinellu. Rhoddodd wybod bod manylion pellach am y rhaglenni gwaith i'w cael yn atodiadau 1-10 yr adroddiad.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes yr adroddiad a'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud yn yr ysgolion sy wedi'u nodi, a fyddai, yn ei barn hi, yn helpu i foderneiddio'r adeiladau a gwella'r amgylchedd dysgu i blant.

Soniodd yr Arweinydd hefyd am y buddsoddiad ychwanegol a'r cynnydd sylweddol sy wedi'i wneud gyda'r rhaglen.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, siaradodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman ar y mater hefyd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo cynlluniau blaenoriaethol y Rhaglen Gyfalaf Addysg ar gyfer 2019/20 fel sy'n cael eu hamlinellu yn Atodiadau 1-10 yr adroddiad a chymeradwyo dechrau ar y cynllun.

(**Nodwch**: Fel sy wedi'i nodi yng Nghofnod 133, cafodd nifer o Ddatganiadau o Fuddiant eu gwneud ynglŷn â'r eitem yma.)

## 136 RHAGLEN GYFALAF ATODOL AR GYFER Y PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH A CHYNLLUNIAU STRATEGOL.

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen raglen gyfalaf manwl ar gyfer Aelodau'r Cabinet o ran y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol ar gyfer 2019/20.

Rhoddodd fanylion i'r Aelodau yn erbyn dyraniadau cyfalaf penodol 2019/20 o £15.032 miliwn ar gyfer Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd a £10.934 miliwn ar gyfer Prosiectau Strategol. Ychwanegodd fod y dyraniadau yma'n cael eu gwneud er mwyn diogelu uniondeb hirdymor y rhwydwaith priffyrdd a chludiant a'i wella, er mwyn delio â gofynion teithio cynyddol. Cyfeiriodd hefyd at gyllid gan Lywodraeth Cymru a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at adran 4.1.4 o'i adroddiad a oedd yn rhoi manylion am y rhaglen a'r dyraniad cyllid.

Croesawodd yr Arweinydd y buddsoddiad a dywedodd wrth yr Aelodau fod y rhaglen yn rhaglen waith dreigl a bod y cam nesaf o ran ei chymeradwyo yn digwydd yn yr Hydref. Croesawodd y gwelliannau a oedd wedi'u nodi i seilwaith priffyrdd yn seiliedig ar y data yn yr adroddiad. Manteisiodd yr Arweinydd ar y

cyfle i drafod y cyllid ychwanegol a roddwyd i'r cynllun lliniaru llifogydd yn dilyn effeithiau Storm Callum a chyfeiriodd hefyd at grantiau posibl eraill a allai fod ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd am y buddsoddiad llwyddiannus a oedd wedi'i gydnabod ar draws y Fwrdeistref Sirol a chyfeiriodd yn benodol at y buddsoddiad mewn pontydd.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, siaradodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman a G. Davies ar yr eitem yma.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi a chymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Atodol ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol yn unol â'r manylion yn yr adroddiad.

2. Nodi bod y dyraniadau presennol yn rhan o raglen gyfalaf 3 blynedd a chytuno i ddirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Gyfadran, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol, ymestyn gweithgarwch i gyflawni prosiectau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol lle mae capasiti yn bodoli ar gyfer cyflwyno carlam yn unol â phwrpas y rhaglen ehangach.

**Nodwch:**

- Gan fod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan wedi gadael y cyfarfod pan gafodd yr eitem ei thrafod, ni phleidleisiodd ar yr eitem.
- Gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser y cyfarfod yn ystod yr eitem hon.

**137 RHAGLEN WAITH Y STRATEGAETH DDIGIDOL - ADLEOLI'R GANOLFAN DDATA**

Rhoddodd y Pennaeth TGCh ei adroddiad i'r Aelodau a oedd yn edrych ar y cynnig i adleoli cyfleuster Canolfan Ddata'r Cyngor, sy'n rhan o raglen waith ehangach i gefnogi darpariaeth barhaus Strategaeth Ddigidol y Cyngor 2020.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cyfle i greu cyfleuster newydd yn y Ganolfan Ddata yn dilyn ailwampio Canolfan Hamdden Rhondda Fach a chaniatáu adleoli systemau cyfrifiadurol y Cyngor, a seilwaith o Dŷ Bronwydd. Mae swyddogion o adrannau Eiddo'r Cyngor a TGCh wedi cynnal adolygiad a diwydrwydd dyladwy o ran y cyfle, a defnyddiwyd canlyniad yr adolygiad yma i lywio'r ffordd ymlaen arfaethedig.

Cafodd yr Aelodau wybod am fanteision defnyddio'r safle a chyfeiriwyd at gynnig y Cyngor i drawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion gyda Thŷ Bronwydd, lleoliad presennol y ganolfan ddata, wedi'i nodi'n safle ar gyfer datblygiadau tai Gofal Ychwanegol.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaeth fanylion am y cynigion arfaethedig i adleoli'r ganolfan ddata.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol y buddsoddiad yn y seilwaith ar gyfer gwasanaethau digidol, gan ddweud y byddai

unrhyw ddiffyg buddsoddiad yn risg i'r Cyngor ac y byddai rhagor o wasanaethau ar-lein gwell ar gael yn y dyfodol gyda buddsoddiad parhaus. Cytunodd yr Aelod o'r Cabinet mai Opsiwn B oedd y ffordd orau ymlaen.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Threftadaeth y syniad o symud i Ganolfan Hamdden Rhondda Fach gan ychwanegu ei bod yn bosibl y byddai hyn yn cynyddu'r nifer sy'n ymaelodi â chyfleusterau'r gampfa yn y Ganolfan.

Hefyd, siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai yn gadarnhaol am y cynllun, gan ychwanegu mai hwn fyddai'r swyddfa gyntaf i symud i Gwm Rhondda Fach.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at ddull tebyg a gafodd ei roi ar waith gyda Chanolfan Hamdden Abercynon, a oedd wedi gweithio'n dda, gan ychwanegu bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gapasiti adeiladau gan gynnig llety i staff a chyfleusterau hamdden i'r staff a'r cyhoedd. Ailadroddodd yr Arweinydd sylwadau Aelodau o'r Cabinet mewn perthynas â phwysigrwydd buddsoddi yn yr ardal a'r cyfle i fwrw ymlaen â datblygiad y cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Nhŷ Bronwydd.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r cynigion yn Adran 6 yr adroddiad ar gyfer adleoli Canolfan Ddata'r Cyngor o Dŷ Bronwydd i Ganolfan Hamdden Rhondda Fach.

2. Bod Pennaeth TGCh yn gweithio ar y cyd â Chyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor i sicrhau bod y gwaith gael ei wneud yn y ffordd fwyaf manteisiol o safbwynt ystyriaethau economaidd.

3. Cynnwys y cynllun yn y rhaglen gyfalaf gan ddefnyddio cyllid y cytunwyd arno'n flaenorol ac ar sail y gofynion o ran costau ac adnoddau a amlinellwyd yn adran 9 yr adroddiad.

**Nodwch:**

- Roedd y Cynghorydd Webber wedi gadael y cyfarfod yn ystod y trafodaethau gan beidio â phleidleisio ar yr eitem yma.

- Gadawodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman a G. Davies y cyfarfod ar y pwynt yma.

**138 ASESIAD DIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE 2019-2020 – Cyn y Cam Craffu**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol wybod i'r Aelodau am ganlyniad y gwaith cyn y cam craffu a gafodd ei wneud gan y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc ar 13 Mawrth mewn perthynas â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Cafodd yr Aelodau wybod fod yr Aelodau wedi trafod yr Asesiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a rhoi sylwadau mewn perthynas â:

- Materion Priffyrdd mewn perthynas â pharcio mewn ardaloedd chwarae
- Pwysigrwydd datblygiadau ardaloedd chwarae yn y CDLl
- Codi Ymwybyddiaeth o gynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol

- Derbyn adolygiad cynnydd ymhen deuddeng mis

Yn dilyn y diweddariad gan y Cyfarwyddwr, aeth Pennaeth Materion Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned ati i roi manylion i'r Aelodau am yr asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.

Cafodd yr Aelodau wybod bod paratoi'r Archwiliad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ddyletswydd statudol ar y Cyngor ac yn ogystal â sefydlu gwaelodlin darpariaeth, mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn galluogi:

- Nodi bylchau o ran gwybodaeth, darpariaeth, darparu gwasanaethau a gweithredu polisïau
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu tystiolaeth er mwyn rhoi syniad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Amlygu ffyrdd posibl o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth
- Mewnbwn a chyfranogiad pob partner sy'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth
- System fonitro a fydd yn cynnwys ac yn gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol
- Nodi enghreifftiau o arfer da
- Rhagor o waith partneriaeth wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Nodi camau gweithredu ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar Sicrhau bod Digon o Gyfleoedd Chwarae sy'n cyd-fynd â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Adran 5 yr adroddiad a oedd yn amlygu'r canfyddiadau yn dilyn yr asesiad trwy system RAG.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc i'r swyddog am yr adroddiad a diolchodd i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc am graffu'n gadarn ar yr asesiad.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, sydd wedi'u hatodi yn adran 5 yr adroddiad yma.

2. Cymeradwyo'r argymhellion sy wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae sydd yn Atodiad B yr adroddiad (er hwylustod fe'u rhestrir isod):

i. Ystyried yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar gyfer 2019-20 a'r cynllun gweithredu ategol.

ii. Cadarnhau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r cynllun gweithredu a chytuno iddyn nhw gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

3. Cymeradwyo cyhoeddi'r asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth, 2019.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.45 pm**

**Cllr A Morgan**
**Cadeirydd.**